**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **30 MEHEFIN 2015** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2014/15** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG**<br>**LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol yn datgan:

*"Mae'r sefydliad yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol o ran cynghori'r sefydliad bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol, sy'n gwybyddu'r datganiad llywodraethu, yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."*

1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.3 Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2014/15 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

## 2. SICRWYDD CYFFREDINOL

**2.1 Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2014/15, yn fy marn i mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

### 2.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.

- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

## 3. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

3.1 Roedd 91 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2013/14. Cafodd 87 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2015, sy'n cynrychioli **95.6%** o'r cynllun. At bwrpasau'r dangosydd yma caiff aseiniad ei gyfrif fel bod wedi ei gwblhau lle mae adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu, os nad oes adroddiad/memorandwm, yr aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%

3.2 Mae'r perfformiad yma yn cymharu â perfformiad 2013/14 o **94.29**%, yn erbyn targed o 95%.

3.3 Yr archwiliadau o gynllun 2014/15 lle nad oedd yr adroddiad wedi ei ryddhau'n derfynol erbyn 31 Mawrth 2015 oedd:

- ***Trefniadau Diogelu.*** Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o waith yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ei drefniadau diogelu. Wrth ystyried adnoddau archwilio oedd ar gael, daethpwyd i'r casgliad fod modd cael sicrwydd yn y maes yma trwy ffyrdd eraill, ac felly na fyddai archwiliad mewnol yn ddefnydd effeithiol o adnoddau.
- ***Trefniadau Rheoli Risg.*** Bu modd i'r gyfundrefn dderbyn sicrwydd trwy ffynonellau eraill, e.e. adroddiadau i'r Grŵp Rheoli.
- ***Systemau TG.*** Y gwaith wedi llithro i 2015/16 oherwydd argaeledd adnoddau.
- ***Strategaeth Caffael.*** Roedd y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth newydd yn parhau yn ystod y flwyddyn; byddai archwiliad wedi bod yn gynamserol.

3.4 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2014/15 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

3.5 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

| | |
|---|---|
| Barn "A" | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| Barn "B" | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| Barn "CH" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

3.6 Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

3.7 O’r 87 aseiniad yng nghynllun archwilio 2014/15 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| **Categori Barn** | **Nifer archwiliadau** |
|---|---|
| A | 24 |
| B | 32 |
| C | 12 |
| CH | 0 |
| Derbyniol | 1 |
| Dim Categori | 18 |
| **Cyfanswm** | **87** |

3.8 O’r adroddiadau perthnasol i gynllun archwilio 2014/15 a dderbyniodd gategori Barn ‘A’ i ‘CH’, derbyniodd 82.4% ohonynt farn ‘A’ neu ‘B’, sydd yn uwch na’r ffigwr cyfatebol o 73.5% yn 2013/14.

3.9 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad farn CH.

3.10 Caiff crynodeb gweithredol adroddiadau llawn eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio ar ôl i’r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda’r cleient a’i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae’r Pwyllgor Archwilio yn derbyn crynodeb byr a ddarganfyddiadau’r archwiliadau perthnasol ble’n briodol.

3.11 Mae’r tabl isod yn dangos pa gyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2014/15. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau’r Adroddiad / Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i’r Pwyllgor Archwilio** |
|---|---|
| 1 Ebrill 2014 – 30 Mehefin 2014 | 15 Gorffennaf 2014 |
| 1 Gorffennaf 2014 – 12 Medi 2014 | 25 Medi 2014 |
| 13 Medi 2014 – 30 Tachwedd 2014 | 18 Rhagfyr 2014 |
| 1 Rhagfyr 2014 – 31 Ionawr 2015 | 17 Chwefror 2015 |
| 1 Chwefror 2015 – 31 Mawrth 2015 | 30 Mehefin 2015 |

**Addasiadau i’r Cynllun**

3.12 Adroddwyd yn rheolaidd i’r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i’r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

3.13 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 21 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015. Derbyniodd pedwar o’r archwiliadau yma yn farn “Anfoddhaol”. Derbyniodd y gweddill farn “Derbyniol” neu “Rhagorol”. Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn ar y cyfan o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

3.14 Parhaodd Gweithgor Gwella Rheolaethau, a gyflwynwyd yn ystod 2013/14, gyda’i waith o gryfhau trefniadau’r Cyngor i ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae’r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn trafod materion o wendidau rheolaidd sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i’r rhain mewn mwy o ddyfnder. Mae pob adroddiad archwiliad sydd wedi cael barn ‘C’ neu ‘CH’ yn cael sylw yno, gyda swyddogion yn cael eu gwahodd yno i egluro’r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella’r sefyllfa.

## 4. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

### Staffio a chymwysterau

4.1 Bu newid yn strwythur reolaethol y gwasanaeth yn ystod 2014/15. Mewn ailstrwythuro uwch o reolaeth yr Adran Cyllid yn weithredol o 1 Tachwedd 2014, diddymwyd y swydd Uwch Reolwr Archwilio a Risg, a crëwyd swydd Rheolwr Archwilio – yn atebol i'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg – i gymryd y swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae gan y Rheolwr Archwilio newydd, yn ogystal ag arweinydd tîm ac uwch archwiliwr, gymhwyster CIPFA llawn, ac mae uwch archwiliwr arall yn rhannol gymwysedig gydag ACCA.

4.2 Fel rhan o gynllun arbedion effeithlonrwydd y Cyngor, diddymwyd 3 swydd archwiliwr oddi ar y strwythur yn weithredol o 1 Ebrill 2015. Mae hyn yn golygu mai 7 aelod llawn amser sydd o'r tîm Archwilio Mewnol ers hynny. Yn ymarferol, daeth 3 swydd oedd yn cael eu diddymu yn wag yn ystod y cyfnod Rhagfyr 2014 i Chwefror 2015, wrth i ddeilyddion y swyddi fod yn llwyddiannus yn eu hymdrechion i ddarganfod cyflogaeth amgen.

### Y defnydd a wneir o adnoddau staff

4.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos lleihad yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd, yn bennaf am y rhesymau a nodi yn 4.2 uchod, o **1,706** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014 i **1,587** diwrnod am yr un cyfnod yn 2014/15, lleihad o 119 diwrnod.
- Roedd cynnydd arwyddocaol yn nifer y dyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio yn cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol, o **56** yn 2013/14 i **150** yn 2014/15.
- Roedd cynnydd hefyd yn nifer y dyddiau a ymrwymwyd i gyflawni archwiliadau dilyniant, o **41** yn 2013/14 i **125** yn 2014/15.
- Bu lleihad yn nifer y dyddiau a ddefnyddiwyd i gyflenwi archwiliadau i'n cwsmeriaid allanol, o **163** yn 2013/14 i **41** yn 2014/15. Roedd yn lleihad yma wedi ei gynllunio amdano. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn daeth ein cytundeb gyda Cymdeithas Tai Eryri i ben, ar ôl iddynt uno gyda cymdeithas dai arall i ffurfio Grŵp Cynefin.
- O safbwynt hyfforddiant proffesiynol, roedd un Archwiliwr yn astudio am gymhwyster ACCA.
- Arhosodd nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch ar yr un lefel isel, sef **29** diwrnod.

## 5. PERFFORMIAD ARCHWILIO

5.1 Roedd canlyniadau mesuryddion perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2014/15 fel a ganlyn:

| Disgrifiad mesurydd | Perfformiad 2013/14 | Uchelgais 2014/15 | Canlyniadau 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu cau | 94.29% | 95% | **95.6%** |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd | 1,707 | 1,506 | **1,587** |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol | 163 | 50 | **41** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn "B" neu well (mesur corfforaethol) | 75.0% | 70% | **80.3%**[1] |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 80.0% | 90% | **80.95%** |

5.2 Llwyddwyd i gwrdd â'r targedau i gyd, ar wahân i:

***Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol)***. Mesur corfforaethol yw hwn, ond roedd ymateb rhai gwasanaethau i'r archwiliadau yn siomedig, ac mae trefniadau i roi sylw i hyn trwy'r Pwyllgor Archwilio a'r Gweithgor Gwella Rheolaethau. Er hyn, mae 4 allan o bob 5 wedi gweithredu'n unol â'r disgwyl.

***Gwir ddyddiau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol***. Roedd y mesur yma yn is na'r targed oherwydd llithriad wrth gwblhau un archwiliad i gwsmer allanol, oedd yn ganlyniad i'r angen i newid amserlen y gwaith archwilio ar gais y cwsmer.

---

[1] Mae hwn yn mesur barn yr archwiliadau terfynol a ryddhawyd rhwng 1/4/2014 a 31/3/2015, gan gynnwys rhai archwiliadau o gynllun 2013/14 yn ogystal â 2014/15. Dyma'r rheswm dros y gwahaniaeth rhwng y canlyniad yma a'r hyn adroddir ym mharagraff 3.8, sy'n adrodd ar waith o gynllun 2014/15 yn unig.

## 6. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2015/16

6.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2015/16 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2015. Mae'r cynllun diweddaraf, yn cynnwys addasiadau ers cyfarfod y Pwyllgor, wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

6.2 Mesurau perfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer 2015/16 yw:

| Mesur | Uchelgais 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|
| Canran o'r archwiliadau dilyniant sydd yn derbyn barn "Derbyniol" neu well | 90 | Cynnal |
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod ynau gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu cau | 95 | Cynnal |
| Gwir ddyddiau archwilio a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd | 1125 | Bodlon gweld gostyngiad |
| Gwir ddyddiau archwilio a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol | 50 | Bodlon gweld gostyngiad |
| Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well | 65 | Bodlon gweld gostyngiad |

6.3 Awgrymir y dylai'r Cyngor fod yn fodlon gweld gostyngiad ym mherfformiad tri o'r mesurau am y rhesymau canlynol:

***Gwir ddyddiau archwilio a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd***. Mae nifer yr archwilwyr wedi lleihau o 10 yn 2014/15 i 7 yn 2015/16. Mae hynny wedi ei gytuno gan y Cyngor fel rhan o'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd.

***Gwir ddyddiau archwilio a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol***. Mae cytundeb y gwasanaeth gyda Grŵp Cynefin wedi dod i ben, a nid oes sicrwydd y byddwn yn llwyddo i ennill cytundeb gyda cwsmer allanol yn ei le.

***Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well***. Wrth i nifer staff y Cyngor gael ei dorri, mae'n ddisgwyliedig y bydd rhai rheolaethau mewnol yn gwanhau. Fodd bynnag, disgwylir mai gostyngiad dros dro fydd hyn, cyn y bydd egwyddorion Ffordd Gwynedd yn datblygu o fewn holl wasanaethau'r Cyngor.

6.4 Mae posibilrwydd cryf y bydd y mesurau hyn yn newid yn ystod y flwyddyn, wrth iddynt gael eu hadolygu yn unol ag egwyddorion "Ffordd Gwynedd".

## 7. ARGYMHELLIAD

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2014/15.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2014/15

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| System Swyddi - diogelwch a chywirdeb | **C** | 30 Mehefin 2015 |
| Ffonau Symudol | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Defnydd o dechnoleg - astudiaeth gwerth am arian | **Dim Categori** | 30 Mehefin 2015 |
| Trefniadau Dysgu a Datblygu | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu | **A** | 17 Chwefror 2015 |
| Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | **Dim Categori** | 18 Rhagfyr 2014 |
| Cofrestr Diogelwch Staff | **C** | 25 Medi 2014 |
| Iechyd a Diogelwch - Gweithio'n Unig | **C** | 30 Mehefin 2015 |
| Adolygiad o Gymorth y Wladwriaeth | **Dim Categori** | |
| Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | **Dim Categori** | 25 Medi 2014 |
| Llywodraethu Corfforaethol - Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **Dim Categori** | |
| Trefniadau Salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol | **B** | 18 Rhagfyr 2014 |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **Dim Categori** | |
| Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | **C** | 25 Medi 2014 |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| Cynllun Tywydd Garw | **B** | 25 Medi 2014 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | **C** | 17 Chwefror 2015 |
| Grant Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| Grant Presenoldeb Ysgol y Consortia | **Dim Categori** | |
| Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaenol | **B** | 25 Medi 2014 |
| TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| **Ysgolion** | | |
| Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | **B** | 25 Medi 2014 |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | **Dim Categori** | |
| **CYLLID** | | |
| **Ariannol** | | |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 | **B** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | |
| Rheolaeth Trysorlys | **B** | 17 Chwefror 2015 |
| **Cyfrifeg** | | |
| Taliadau CHAPS | **A** | 18 Rhagfyr 2014 |
| Cofrestrau Asedion Sefydlog (Cerbydau) | **Dim Categori** | 30 Mehefin 2015 |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 25 Medi 2014 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 | **A** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 | **A** | 18 Rhagfyr 2014 |
| Cyflogau - Swyddi Lluosog | **C** | 30 Mehefin 2015 |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 | **A** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Refeniw** | | |
| System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 | **A** | 15 Gorffennaf 2014 |
| System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 | **A** | 15 Gorffennaf 2014 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| System Treth Di-Annedd - Cau i lawr 2013-14 | **A** | 15 Gorffennaf 2014 |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | **C** | 30 Mehefin 2015 |
| Cydgyfeiriant Rhwydwaith | **Dim Categori** | 30 Mehefin 2015 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| Cronfa Degwm | **A** | 17 Chwefror 2015 |
| Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | **C** | 25 Medi 2014 |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | **C** | 30 Mehefin 2015 |
| **Hamdden** | | |
| Canolfannau Hamdden | **C** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| Yr Hafan, Pwllheli | **B** | 17 Chwefror 2015 |
| Traethau | **B** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | |
| Llwyddo'n Lleol - cau i lawr | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi | **B** | 25 Medi 2014 |
| Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw | **B** | 25 Medi 2014 |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | |
| Unedau Diwydiannol a Thechnoleg | **A** | 17 Chwefror 2015 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| System Gwybodaeth Gwasanaeth Cymdeithasol | **Dim Categori** | 30 Mehefin 2015 |
| **Cyswllt Cwsmer** | | |
| Galw Gwynedd | **A** | 30 Mehefin 2015 |
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | |
| Digartrefedd | **B** | 25 Medi 2014 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl | **B** | 17 Chwefror 2015 |
| Plas Maesincla, Caernarfon | **B** | 15 Gorffennaf 2014 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Plas Ogwen, Bethesda | **C** | 15 Gorffennaf 2014 |
| Asedau Preswylwyr Cartrefi | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Grant Refeniw Dechrau'n Deg | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol | **A** | 18 Rhagfyr 2014 |
| Grant Teuluoedd yn Gyntaf | **Dim Categori** | 17 Chwefror 2015 |
| Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Plant mewn Gofal - asesiadau addysg ac iechyd | **B** | 17 Chwefror 2015 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc | **Dim Categori** | 30 Mehefin 2015 |
| Rheolaeth Fflyd | **Dim Categori** | |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | |
| Meysydd Chwarae | **B** | 15 Gorffennaf 2014 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Cytundebau Gwaredu Gwastraff | **A** | 15 Gorffennaf 2014 |
| Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | **Dim Categori** | 18 Rhagfyr 2014 |
| Diogelwch Safleoedd Ailgylchu | **A** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas | **B** | 15 Gorffennaf 2014 |
| **Cynllunio** | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | **A** | 18 Rhagfyr 2014 |
| Gwasanaeth Cynllunio - Penderfyniadau Cynllunio | **B** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | **C** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Gorchmynion Ffyrdd | **B** | 25 Medi 2014 |
| Pont Briwet | **Dim Categori** | 17 Chwefror 2015 |
| Uned Trafnidiaeth Integredig | **Dim Categori** | |
| Gorfodaeth Parcio | **B** | 30 Mehefin 2015 |
| Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd | **A** | 17 Chwefror 2015 |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Cyfeiriad Strategol** | | |
| Grant Cymunedau'n Gyntaf a Theuluoedd | **Dim Categori** | 30 Mehefin 2015 |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | **Derbyniol** | 18 Rhagfyr 2014 |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | |
| Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd | **B** | 18 Rhagfyr 2014 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2014/15:**

| | Nifer archwiliadau |
| --- | --- |
| A | **24** |
| B | **32** |
| C | **12** |
| Derbyniol | **1** |
| Dim Categori | **18** |
| **Cyfanswm** | **87** |

## Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

| 2013/14 | | 2014/15 |
|---|---|---|
| **2,945** | **Cyfanswm Dyddiau** | **2,594** |
| 446 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 390 |
| **2,499** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **2,204** |
| | Llai: | |
| 16 | Gwyliau Arbennig | 16 |
| 29 | Salwch | 29 |
| 10 | Hyfforddiant Proffesiynol | 10 |
| 76 | Hyfforddiant Swydd | 106 |
| **2,368** | **Dyddiau ar gael** | **2,043** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 18 | Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) | 8 |
| 9 | Apwyntiadau Meddygol | 12 |
| 34 | Cofnodi a Rheoli Amser | 33 |
| 86 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 88 |
| 3 | Cyfarfodydd-Gwaith ar y cyd a SAC | 1 |
| 10 | Cyflwyno Hyfforddiant | 11 |
| 5 | Cynnal Cyfweliadau | 1 |
| 46 | Gwaith Cefndirol | 38 |
| 50 | Gweinyddiaeth ayb. | 36 |
| 26 | Pwyllgor Archwilio | 13 |
| 116 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 100 |
| 6 | Rheoli Absenoldebau | 4 |
| 2 | Tasgau Cydweithio Gogledd Cymru | 1 |
| 8 | Trafferthion TG | 8 |
| 5 | Uwchraddio Galileo | 0 |
| 23 | Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol | 33 |
| 0 | Ymarferiadau Tân | 1 |
| 52 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Uwch Reolwr) | 27 |
| **1,869** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **1,628** |
| 45 | Gwaith APCE | 30 |
| 118 | Gwaith CTE | 11 |
| **1,706** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **1,587** |

## Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

| 2013/14 | | 2014/15 |
|---|---|---|
| 1,528 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 1,258 |
| 21 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 5 |
| 13 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 8 |
| 47 | Cynghori | 41 |
| 41 | Gwaith dilyniant | 125 |
| 56 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 150 |
| **1,706** | | **1,587** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Defnydd Ymgynghorwyr | **20.00** |
| | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | **20.00** |
| | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw | **25.00** |
| | Taliadau Cymorth Cyntaf | **7.00** |
| | Asesiad Corfforaethol | **25.00** |
| | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel | **15.00** |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **20.00** |
| | Llywodraethu Gwybodaeth - Deddf Diogelu Data | **15.00** |
| | Grantiau Amrywiol | **20.00** |
| | Y Fenter Twyll Genedlaethol | **50.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | **20.00** |
| | Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn | **10.00** |
| | Cyfathrebu gydag Ysgolion | **10.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | **15.00** |
| **Arlwyo** | | |
| | Arlwyaeth Ysgolion | **20.00** |
| **GwE** | | |
| | GwE | **20.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Ysgol Gynradd Dolgellau | **5.00** |
| | Ysgolion Cyffredinol | **10.00** |
| | Ysgol Dyffryn Nantlle | **8.00** |
| | Ysgolion - Llywodraethu | **20.00** |
| | Modelu'r Gweithlu | **17.00** |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| | Ysgolion - Iechyd a Diogelwch tripiau ysgol | **20.00** |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | **50.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Ariannol** | | |
| | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **12.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **12.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| | PSG - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | PSG gan gynnwys Dyledwyr a Taliadau - Cau i Lawr 2014-15 | **8.00** |
| | Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Cysoni Banc - Cau i Lawr 2014-15 | **5.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **12.00** |
| | System Gyflogau - Cau i Lawr 2014-15 | **5.00** |
| | Cronfa Bensiwn - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| **Refeniw** | | |
| | Taliadau Tai Dewisol | **10.00** |
| | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Systemau Refeniw - Cau i Lawr 2014-15 | **10.00** |
| | System Treth Cyngor - Connect & Serve | **10.00** |
| | Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **8.00** |
| | Treth Annomestig - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **8.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| | Rhyngwyneb Siebel - eFinancials | **10.00** |
| | Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG | **15.00** |
| | Diogelwch Systemau TG | **30.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Cronfa Degwm | **5.00** |
| **Hamdden** | | |
| | Canolfannau Hamdden - Casglu Incwm | **20.00** |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| | Academi Hwylio | **15.00** |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Gofal Cartref | **25.00** |
| | Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r 3ydd Sector | **20.00** |
| | Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal | **20.00** |
| **Gofal Cymunedol** | | |
| | Costau Teithio Gofalwyr Cartref | **15.00** |
| **Oedolion** | | |
| | Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat | **20.00** |
| | Newidiadau i ILF | **15.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| | Plas y Don, Pwllheli | **12.00** |
| | Plas Hedd, Bangor | **12.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Hafod Mawddach, Abermaw | **12.00** |
| | Cefn Rodyn, Dolgellau | **12.00** |
| | Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi | **10.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| | Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd | **10.00** |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| | Arolygiadau | **20.00** |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| | Pont Briwet | **15.00** |
| | Trafnidiaeth Gyhoeddus | **25.00** |
| | Incwm Meysydd Parcio | **20.00** |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Democratiaeth** | | |
| | Hyfforddi a Datblygu Aelodau | **10.00** |
| | Cronfa'r Cadeirydd | **5.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| | Recriwtio a Phenodi | **15.00** |
| | | **970.00** |